Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

18 Mehefin 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr 2020 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y Cynllun Rheoli'r Coronafeirws. Diweddarwyd y cynllun hwn ar 19 Mawrth 2021.

Ar 7 Mehefin, dechreuodd Cymru gyfan symud i Lefel Rhybudd 1. Gohiriwyd symud yn gyfan gwbl i Lefel Rhybudd 1 oherwydd cyfraddau cyffredinrwydd cynyddol y coronafeirws, ansicrwydd parhaus am y berthynas rhwng achosion, cleifion yn yr ysbyty a marwolaethau ynghyd a mantais twf sylweddol yr "amrywiolyn Delta" o'i gymharu â'r "amrywiolyn Alffa" a oedd yn gyffredin yn flaenorol.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i symud fesul cam i Lefel Rhybudd 1 o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws, ac mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 y prif Reoliadau er mwyn darparu ar gyfer (i) llacio cymedrol mewn meysydd lle teimlir fod hynny'n gymesur ac yn gyfiawn, gan ystyried y sefyllfa iechyd y cyhoedd a thystiolaeth economaidd-gymdeithasol ac (ii) i fynd i'r afael â rhai anghysondebau yn y Rheoliadau fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd.

Te angladd a derbyniadau priodas/partneriaeth sifil

Ni fydd uchafswm bellach ar y niferoedd a gaiff fod yn bresennol mewn derbyniadau ar gyfer partneriaeth sifil, priodasau a phriodasau amgen, na dathliadau bywyd person ymadawedig, mewn mangre reoleiddiedig. Bydd y cyfyngiadau ar niferoedd yn hytrach yn seiliedig ar faint y lleoliad a'r gallu i gadw pellter cymdeithasol a chadw at reolau eraill y mae'n ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre eu gosod er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Bydd y newid hwn yn dod â'r trefniadau ar gyfer Cymru yn unol â'r trefniadau yn Lloegr a'r Alban, yn gyffredinol.

Mesurau rhesymol (rheoliad 16) a statws cadw pellter o 2 fetr

Mae diwygiadau'n cael eu gwneud i reoliad 16 (y gofyniad i gymryd yr holl fesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws) i esbonio'r berthynas rhwng y ddyletswydd i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o 2 fetr rhwng unigolion mewn mangre reoleiddiedig a'r mesurau rhesymol eraill y mae'n rhaid i berson cyfrifol eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Mae'r diwygiadau yn cyflwyno dull 4 cam wedi'i ddiweddaru y mae pob un ohonynt yr un mor berthnasol, gyda'r un statws cyfreithiol, ac mae angen rhoi ystyriaeth iddynt. Mae'r camau'n adlewyrchu'r canllawiau statudol a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar yr hierarchaeth rheolaethau (gan gynnwys ychwanegu awyru fel mesur lliniaru pwysig).

Bydd bellach yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod grŵp sydd wedi ymgynnull yn gyfreithlon mewn mangre reoleiddiedig yn cadw pellter o 2 fetr o fewn y grŵp hwnnw.

Mae mesurau rhesymol eraill yn parhau i fod yn allweddol i sicrhau bod y risg o ledaenu'r feirws yn is, ac maent wedi'u nodi yn y Rheoliadau, gan gynnwys gofyniad newydd i geisio sicrhau bod mangreoedd wedi'u hawyru'n dda.

Mae'r gofyniad i gynnal asesiad risg penodol wedi'i gynnwys yn rheoliad 16 o hyd ac mae'n parhau i fod yn agwedd bwysig o gymryd yr holl fesurau rhesymol. Dylid hefyd ystyried y risgiau a nodwyd ar ôl cynnal yr asesiad risg hwn ac wrth gynllunio pa fesurau i'w cymryd.

Cynulliadau plant ysgolion cynradd

Mae'r Rheoliadau wedi'u diwygio er mwyn caniatáu i blant ysgolion cynradd ymgynnull (mewn grwpiau cyswllt/swigod ysgol) mewn llety preswyl neu wyliau, gan gynnwys aros dros nos, os yw'n gynulliad wedi'i reoleiddio, ar gyfer datblygiad neu lesiant y plant. Bydd hyn yn caniatáu, er enghraifft, teithiau i ganolfannau preswyl addysg awyr agored.

Materion eraill

Bydd y Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau i:

- Ddarparu y caiff lleoliadau cerddoriaeth a chomedi llawr gwlad weithredu ar yr un sail â lleoliadau lletygarwch, fel tafarndai a chaffis, drwy esbonio nad yw'r gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau yn berthnasol i berfformiad adloniant os nad oes mwy na 200 o bobl yn bresennol, neu os caiff ei gynnal yn yr awyr agored.

- Esbonio y gellir darparu cyfleusterau lletygarwch dan do mewn digwyddiad awyr agored heb newid statws y digwyddiad hwnnw.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, paratowyd ac ystyriwyd asesiad effaith cryno fel rhan o'r broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer y coronafeirws er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnaed. Caiff yr asesiad effaith cryno ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.